

Cyfenw
Enwau Eraill

Rhif y Ganolfan

Rhif yr Ymgeisydd
0



TGAU

3310N20-1



**MATHEMATEG – RHIFEDD
UNED 2: LLE CANIATEIR CYFRIFIANNELL
HAEN SYLFAENOL**

DYDD MERCHER, 8 TACHWEDD 2017 – BORE

1 awr 30 munud

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Bydd angen cyfrifiannell ar gyfer y papur hwn.
Efallai bydd angen pren mesur, onglydd a chwmpas.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Cewch ddefnyddio pensil ar gyfer graffiau a diagramau yn unig.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.

Os nad oes digon o le, defnyddiwch y dudalen barhad yng nghefn y llyfryn. Rhaid rhoi rhif y cwestiwn ar gyfer unrhyw waith sy'n cael ei ysgrifennu ar y dudalen barhad.

Cymerwch π fel 3.14 neu defnyddiwch y botwm π ar eich cyfrifiannell.

I'r Arholwr yn unig		
Cwestiwn	Marc Uchaf	Marc yr Arholwr
1.	19	
2.	7	
3.	6	
4.	6	
5.	5	
6.	6	
7.	4	
8.	12	
Cyfanswm	65	

3310N201
01

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dylech roi manylion eich dull datrys os yw'n briodol.

Nid yw'r diagramau wedi'u lluniadu wrth raddfa os nad yw'n cael ei nodi.

Ni fydd atebion lluniadu wrth raddfa yn dderbyniol os oes gofyn i chi gyfrifo.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.


Yng nghwestiwn 1(a), bydd yr asesu'n ystyried ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb ieithyddol a mathemategol yn ysgrifennu.



NOV173310N20101


Rhestr Fformiwlâu – Haen Sylfaenol

$$\text{Arwynebedd trapesiwm} = \frac{1}{2}(a + b)h$$



1. (a) *Yn y rhan hon o'r cwestiwn, cewch eich asesu ar ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb yn ysgrifennu.*

Mae Evan eisiau bwcio gwyliau ar ynys Cyprus am un wythnos.
Mae e'n darganfod gwyliau gan ddefnyddio'r rhyngrwyd.



Hotel Amathas * * * *

£860 yr oedolyn am un wythnos
£500 y plentyn am un wythnos
(LLETY A RHAI PRYDAU BWYD)

PRISIAU ERAILL (am un wythnos)
LLETY A PHOB PRYD BWYD £80 yn ychwanegol am bob oedolyn, £55 yn ychwanegol am bob plentyn
£115 yn ychwanegol am ystafell â golwg dros y môr.

DISGOWNT
Disgownt o 10% am dalu yn llawn adeg y bwcio.

Mae llety a rhai prydau bwyd yn cynnwys brechwast a phryd yn y nos.
Mae llety a phob pryd bwyd yn cynnwys brechwast, cinio a phryd yn y nos.

- Mae Evan eisiau bwcio un ystafell ar gyfer dau oedolyn ac un plentyn.
- Mae eisiau newid i gael llety a phob pryd bwyd ar gyfer y tri ohonyn nhw.
- Mae eisiau ystafell â golwg dros y môr.

Mae Evan yn talu yn llawn pan mae'n bwcio'r gwyliau.
Cyfrifwch beth yw cyfanswm y gost.
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo.

[6 + 2 TCY]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....



(b) Bydd Evan a'i deulu yn hedfan o Faes Awyr Caerdydd i Faes Awyr Rhyngwladol Larnaca, ar ynys Cyprus.





Sul 5 Awst 2018

Gadael Caerdydd 15:00 (amser y DU)



Cyrraedd Larnaca 22:00 (amser Cyprus)

Mae amser Cyprus 2 awr o flaen amser y DU.

Faint o amser bydd y daith hedfan yn ei gymryd?

[2]

.....

.....

.....

.....


.....

.....

..... awr



- (c) Mae Evan yn gweld y graff hwn ar wefan.
Mae'n dangos gwybodaeth am y tywydd yn Larnaca.



Rhowch **un** feirniadaeth o'r graff hwn.

[1]

.....

.....

.....

.....

- (ch) Mae Evan yn gweld y wybodaeth hon am y glawiad cyfartalog misol, mewn mm, yn Larnaca.

Mis	Ion	Chw	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gor	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag
Glawiad (mm)	78	64	34	19	7	2	1	1	6	18	66	94

- (i) Pa un o'r geiriau isod sy'n disgrifio orau y siawns y bydd hi'n bwrw glaw yn Larnaca ar unrhyw ddiwrnod penodol ym mis **Awst**?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb.

[1]

sicr tebygol siawns deg annhebygol amhosibl

- (ii) Pa fis sydd â'r glawiad cyfartalog sydd agosaf at **7 centimetr**?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb.


[1]

Ionawr Chwefror Mai Medi Tachwedd




(d) Mae Evan yn defnyddio graffiau'r rhyngwyd i gymharu'r oriau cyfartalog dyddiol o heulwen yng Nghaerdydd a Larnaca.

Oriau cyfartalog dyddiol o heulwen, Larnaca



Oriau cyfartalog dyddiol o heulwen, Caerdydd



(i) Yn Larnaca, pa fis oedd â chyfartaledd o 11 awr y dydd o heulwen? [1]

Mis

(ii) Darganfyddwch nifer yr oriau dyddiol cyfartalog **ychwanegol** o heulwen yn Larnaca o gymharu â Chaerdydd ym mis Mehefin. [2]

.....

.....

.....

.....



(dd) Mae Evan yn gweld y wybodaeth hon am y tymheredd dyddiol **uchaf** ar gyfer pob mis yn Larnaca llynedd.

Mis	Ion	Chw	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gor	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag
Tymheredd (°C)	17	17	19	23	25	30	32	33	30	32	27	17

(i) Beth yw canolrif y tymereddau hyn? [2]

.....

.....

.....

(ii) Esboniwch pam nad yw modd y tymereddau hyn yn addas fel cyfartaledd. [1]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....



2. Mae gan Declan ddwy gwningen.
Mae eisiau prynu cwt cwningod (*rabbit hutch*) newydd.



Mae Declan yn darganfod rheol i gyfrifo faint o le llawr (*floor space*) dylai pob cwningen ei gael yn y cwt.

$$\text{Lle llawr angenrheidiol} = \text{màs y gwningen} \times 1800$$

Mae lle llawr yn cael ei fesur mewn cm^2 .
Mae màs yn cael ei fesur mewn kg.

- (a) Pwysau cwningen fwyaf Declan yw 3.2 kg.
Faint o le llawr dylai'r gwningen hon ei gael yn y cwt? [2]

.....

.....

.....

.....

- (b) Mae Declan yn cyfrifo bod angen i'w gwningen leiaf gael 4860 cm^2 o le llawr.
Beth yw màs y gwningen leiaf? [2]

.....

.....

.....

.....



(c) Mae Declan yn gweld cwt â llawr petryal sy'n mesur 150 cm wrth 80 cm.
Dangoswch fod digon o le llawr ar gyfer y ddwy gwningen yn y cwt hwn.
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo.

[3]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

3310N201
09



3. Mae gan Mair hen rysâit deuluol ar gyfer gwneud cacennau/teisennau cri.

Cynhwysion ar gyfer 10 cacen gri

8 owns blawd plaen
4 owns menyn
3 owns siwgr mân
2 owns cyrens
1 wy



- (a) Mae Mair eisiau gwneud 40 cacen gri.
Cwblhewch y rysâit.

[1]

Cynhwysion ar gyfer 40 cacen gri

32 owns blawd plaen

..... owns menyn

12 owns siwgr mân

..... owns cyrens

4 wy

.....

.....

.....

.....

- (b) Mae blawd yn cael ei werthu mewn bagiau sy'n pwyso un cilogram yr un.
Mae Mair yn gwybod bod angen 2 bwys o flawd arni i wneud 40 cacen gri.
Ydy bag un cilogram o flawd yn ddigon?
Rhowch reswm dros eich ateb.

[1]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....



(c) Mae Mair yn gwerthu cacennau cri i gaffi.
Mae hi'n gwerthu 40 cacen gri bob wythnos am 12 wythnos.
Cost wythnosol gwneud y cacennau cri yw £4.50.
Mae hi'n codi 25c ar y caffi am bob cacen gri.
Faint yw cyfanswm yr elw mae Mair yn ei wneud dros yr 12 wythnos?
Rhowch eich ateb mewn £.

[4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Elw = £



4.



Mae mafon yn costio £3.60 y kg



Mae gellyg yn costio £2.60 y kg

Mae Rhys yn prynu rhai mafon a rhai gellyg.
Mae Rhys yn pwysu'r ffrwythau mae e'n eu prynu.
Mae'r mafon yn costio £4.50.

(a) Cyfrifwch beth yw màs y mafon mae Rhys yn eu prynu.

[2]

.....

.....

(b) Mae e'n darganfod bod màs y gellyg dair gwaith cymaint â màs y mafon.
Faint o newid mae Rhys yn ei gael o £20 pan mae'n prynu'r mafon a'r gellyg?
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo.

[4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....



TUDALEN WAG

**PEIDIWCH AG YSGRIFENNU
AR Y DUDALEN HON**




5. Mae Pennaeth Ysgol Maes Newydd yn rhoi *ffurflenni opsiynau* i bob disgybl Blwyddyn 9.

Mae'r ffurflen yn gofyn pa ieithoedd tramor mae'r disgyblion eisiau eu hastudio ym Mlwyddyn 10.

Mae 4 iaith wedi'u rhestru ar y ffurflen: Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg a Mandarin.
Mae'r disgyblion yn gallu dewis cymaint o'r ieithoedd ag maen nhw eisiau.
Mae pob disgybl yn cwblhau a dychwelyd y *ffurflen opsiynau*.

Mae'r Pennaeth yn dangos y canlyniadau mewn diagram Venn, fel sydd i'w weld isod.



- (a) Faint o ddisgyblion sydd ddim wedi dewis o leiaf un o'r 4 iaith?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb.

[1]

0 1 3 5 7

- (b) Faint o ddisgyblion sydd ym Mlwyddyn 9?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb.

[1]

92 94 96 98 100

- (c) Faint o ddisgyblion sydd wedi dewis dim ond un iaith?

[1]



(ch) Mae'r Pennaeth yn gallu cynnig dim ond 2 o'r 4 iaith hyn ym Mlwyddyn 10.
Mae hi'n ysgrifennu'r amserlen fel bod cymaint â phosibl o'r disgyblion oedd wedi dewis
2 iaith yn gallu astudio'r 2 iaith hynny.
Pa 2 iaith bydd y Pennaeth yn eu cynnig ym Mlwyddyn 10?
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo a rhoi rheswm dros eich ateb. [2]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....



6. Mae Lloyd yn cynnal arolwg yn ei ysgol.
Mae'n gwneud arolwg o 300 o ddisgyblion.
Isod mae adran o'i holiadur.

1. Ym mha grŵp blwyddyn rydych chi?
2. Ydych chi'n hoffi lliwiau'r wisg ysgol?
3. Beth yw eich hoff liw?

- (a) Yna, mae Lloyd yn credu y dylai roi blychau opsiwn yng nghwestiynau 1 a 2.
Beth allai'r blychau opsiwn hyn fod? [2]

Cwestiwn 1:

.....


.....

Cwestiwn 2:

.....

.....

- (b) Mae siart cylch sy'n dangos canlyniadau cwestiwn 3 yr holiadur i'w weld isod.



- (i) Pa liw sy'n cael ei ddewis gan 75 disgybl fel eu hoff liw?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb. [1]

Du Coch Glas Melyn Arall

.....



(ii) Pa ffracsiwn o'r disgyblion sy'n dweud mai glas yw eu hoff liw?
Rhowch eich ateb ar ei ffurf symlaf.

[3]

.....
.....
.....

7. (a) Beth yw 3 awr 12 munud mewn oriau?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb.

[1]

3·102 awr 3·12 awr 3·15 awr 3·2 awr 3·25 awr

.....
.....

(b) Mae'r 40 milltir cyntaf mewn taith yn cymryd 1 awr 15 munud.
Mae'r 80 milltir arall yn cael eu cwblhau mewn 2 awr 15 munud.
Cyfrifwch beth yw buanedd cyfartalog y daith 120-milltir, mewn mya (*mph*).

[3]

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....



8. Mae adroddiad papur newydd yn dweud y canlynol:

- Mae 12% o boblogaeth y byd yn llaw chwith.
- Mae dwywaith cymaint o ddynion â menywod yn llaw chwith.
- Mae 30% o boblogaeth y byd yn llaw gymysg (*mixed-handed*).
Mae'n well gan bobl llaw gymysg ddefnyddio'r llaw chwith ar gyfer rhai tasgau a'r llaw dde ar gyfer eraill.
- Mae'n brin iawn i rywun fod yn ddeuddeheuig (*ambidextrous*), sef bod â'r gallu i wneud pob tasg yr un mor dda gan ddefnyddio'r llaw dde neu'r llaw chwith.

Yn 2011, poblogaeth Cymru oedd 3 063 000.

Yn 2014, poblogaeth Cymru oedd 3 092 000.

(a) Cyfrifwch nifer y bobl llaw chwith oedd yn byw yng Nghymru yn 2011.
Nodwch pa dybiaeth rydych chi wedi ei gwneud.

[3]

.....

.....

.....

.....

.....

Tybiaeth:

.....

.....

.....

.....

(b) Yn 2011, poblogaeth Cymru oedd 3 063 000.
Roedd 1 559 000 o'r bobl hyn yn fenywod.

Yn 2011, pa **ganran** o boblogaeth Cymru oedd yn **ddynion**?
Rhowch eich ateb yn gywir i 1 lle degol.

[3]

.....

.....

.....

.....

.....



(c) Faint o bobl llaw gymysg rydych chi'n credu oedd yn byw yng Nghymru yn 2014?
Rhaid i chi ddangos eich gwaith cyfrifo.
Rhowch eich ateb i'r 1000 agosaf o bobl.

[2]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

(ch) Mae gwlad o 6 miliwn o bobl yn cwrdd â phob un o'r pwyntiau sydd yn adroddiad y papur newydd.
Mae 8% o'r menywod yn y wlad hon yn llaw chwith.

Mae 3 miliwn o ddynion yn byw yn y wlad hon.
Faint o ddynion llaw chwith byddech chi'n disgwyl eu cael yn y wlad hon?

[4]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

DIWEDD Y PAPUR



